

Camau Gweithredu – Cyfarfod rhif 3 y Grŵp Ecosystemau Morol

16 Mehefin 2010

Swyddfeydd y Cyngor Cefn Gwlad, Y Drenewydd

Yn bresennol:

Louise George (Cadeirydd, LICC)

Aethne Cooke (CCGC – ysgrifenyddiaeth)

Blaise Bullimore (Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd)

Martyn Evans (Cyngor Sir Fynwy)

Judith Oakley (Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe / cynrychiolydd

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol)

Mick Green (Annibynnol)

Gill Bell (Y Gymdeithas Cadwraeth Forol)

Diana Reynolds (LICC)

Sarah Perry (Ymddiriedolaethau Natur Cymru)

Negeseuon allweddol:

1. Cynhelir seminar ar gyfer partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ym mis Medi 2010 i gyflwyno targedau a champau gweithredu morol. Cynhelir gweithdai ar wahân i'r gogledd a'r de.
2. Bydd LICC yn rhoi'r gorau i'r gwaith o gadeirio'r Grŵp Ecosystemau Morol. Yn gyfnewid am hyn, mae pennaeth yr Uned Bysgodfeydd (Graham Rees) a phennaeth y Gangen Polisi Morol (Julia Williams) wedi cytuno i fynychu cyfarfodydd Grŵp Polisi Bioamrywiaeth Cymru a chymryd rhan yn ei waith. Bydd Louise George o'r Gangen Polisi Morol a chynrychiolydd o Uned Bysgodfeydd LICC yn dod yn aelodau o'r Grŵp Ecosystemau Morol. Mae Diana Reynolds wedi cytuno i ddod i'r Grŵp Ecosystemau Morol ymhen blwyddyn i drafod sut y mae'r trefniant hwn yn gweithio. Roedd yr aelodau yn cytuno â chynnig DR, sef y dylai Blaise Bullimore (cynrychiolydd Grŵp o Safleoedd Morol Ewropeaidd a swyddog Bae Caerfyrddin ac Aberoedd) fod yn gadeirydd y Grŵp Ecosystemau Morol dros dro. Cytunwyd ar feini prawf i fesur llwyddiant y trefniant, sef y bydd y Gangen Polisi Morol a'r Uned Bysgodfeydd yn cymryd rhan weithgar yng ngwaith y Grŵp Ecosystemau Morol a Grŵp Polisi Bioamrywiaeth Cymru, ac yn mynychu cyfarfodydd.
3. Dylai grwpiau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol nodi pa gyfarwyddyd y mae ei angen arnynt i weithio ar elfen forol eu hadolygiadau o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'i chwblhau.

Camau Gweithredu (o Gyfarfod rhif 3)		Pwy	Cynnydd
	Dosbarthu'r 'ddogfen brotocolau' derfynol i aelodau. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y dylai pob grŵp yn strwythur newydd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth weithredu a chyfathrebu â'i gilydd.	AC	Wedi'i gwblhau
	Dosbarthu naratif 2 Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol i bob aelod (dylai'r aelodau anfon sylwadau yn uniongyrchol at DR erbyn 25 Mehefin).	AC	Wedi'i gwblhau
	Dosbarthu dolen gyswllt i ganlyniadau 3 gweithdy Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (a gynhaliwyd 10 Chwefror 2010) ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. http://www.biodiversitywales.org.uk/content/uploads/documents/SG%20Meetings/SG%202010/Workshop%20exercise%20outputs%20WBPSG10.pdf	AC	Wedi'i gwblhau
	Dosbarthu manylion gweithdy sy'n edrych yn benodol ar Sefydliadau Anllywodraethol a datblygu Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yng Nghymru.	AC	Wedi'i gwblhau
	Anfon unrhyw sylwadau at AC, o ran newidiadau i'r Cylch Gorchwyl a dull gweithredu'r grŵp, i adlewyrchu'r newid o	Pawb	

	ran y cadeirydd. Dylid dod â'r Cylch Gorchwyl diwygiedig i'r cyfarfod nesaf.		
	Dosbarthu dogfen sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran camau gweithredu polisi morol.	AC	Wedi'i gwblhau
	Dylai'r aelodau ddarparu sylwadau i BB ynghylch y cynnydd a wnaed o ran camau gweithredu polisi morol cyn gynted ag sy'n bosibl (erbyn diwedd mis Gorffennaf ar yr hwyr).)	Pawb	Wedi'i gwblhau
	Datblygu targedau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau morol yn unol â'r dull gweithredu a gyflwynwyd yn y cyfarfod, a'u dosbarthu i'r aelodau erbyn diwedd mis Gorffennaf. Dylai aelodau anfon unrhyw sylwadau pellach am y targedau morol at AC cyn gynted ag sy'n bosibl.	Pawb	
	Dylai Gill siarad â'i chydweithwyr sy'n gweithio ym maes pysgodfeydd yn y Gymdeithas Cadwraeth Forol ynghylch datblygu system greddyau ar gyfer pysgota a thrafod p'un a ellir cynnwys y dull hwn mewn targedau ar gyfer rhywogaethau pysgod masnachol a chamau gweithredu, a sut y dylid gwneud hynny.	GB	
	Dylai pob aelod anfon sylwadau at AC am y camau gweithredu drafft presennol a nodi camau gweithredu pellach. Gofynnir i LICC, y Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn benodol fynd ati i nodi camau gweithredu sy'n berthnasol i'w sefydliad i'w cynnwys ar y daenlen. Bydd AC yn dosbarthu taenlen camau gweithredu i aelodau'r grŵp erbyn diwedd mis Gorffennaf 2010.	Pawb	
	Trefnu gweithdai ar wahân i bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol gogledd a de Cymru i gyflwyno targedau a chamau gweithredu morol drafft (mae hyn yn debygol o ddigwydd tua mis Medi).	AC	
	Nodi pa arweiniad a ddarparwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer cynnal adolygiadau o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a gweld a oes angen rhagor o arweiniad o ran elfen forol yr adolygiadau o'r Cynlluniau Gweithredu.	AC	
	Mae'r bylchau yn aelodaeth y Grŵp Ecosystemau Morol yn cynnwys Ynni Adnewyddadwy Morol (dylai AC siarad â Kate Smith); Ystâd y Goron; Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru. Cytunwyd bod angen cynrychiolaeth o blith yr Awdurdodau Lleol ar Grŵp Polisi Bioamrywiaeth Cymru – dylai AC siarad â Julia Korn).		